Diweddariadau o WCVA

03 Medi 2018

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Mae arweinwyr yn chwarae rôl arwyddocaol yn cefnogi newid trawsffurfiol, yn grymuso pobl ac yn annog cymryd risg sydd wedi'i reoli'n dda. Anelwn at sicrhau bod arweinwyr yn y trydydd sector yng Nghymru yn gryf ac yn arloesol fel y gallant arwain y sector tuag at ddyfodol a all fod yn un heriol. Mae Bwrsari Arweinyddiaeth Walter Dickie yn helpu i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd drwy gynnig £2,500 bob blwyddyn i arweinydd yn y trydydd sector. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant Arweinyddiaeth Trydydd Sector ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol - mae llefydd yn brin felly cadwch eich lle heddiw.

Ydych chi'n chwilio am y lleoliad fforddiadwy perffaith i gynhadledd, cyfarfod, neu sesiwn hyfforddi? Mae gennym amrywiaeth o ystafelloedd yn ein swyddfeydd yn Aberystwyth, Caerdydd a'r Rhyl sydd ar gael i'w llogi i elusennau sydd ar gyllideb. Mae ganddynt gyfleusterau o'r radd flaenaf a gostyngiadau sylweddol i aelodau -ewch ar y wefan i gael gwybod mwy.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf.

Gwirfoddoli
Deall a Denu gwirfoddolwyr yr unfed ganrif ar hugain

Rydym wrth ein boddau o groesawu Rob Jackson yn ôl i Gymru i ddarparu sesiynau hyfforddi i reolwyr gwirfoddolwyr ym mis Hydref.
Arolwg Gwefan Volunteering Wales

Rhowch wybod eich barn i ni am wefan gwirfoddoli cymru.
Tocyn am ddim i gynhadledd

Â diddordeb mewn chwaraeon a gwirfoddoli? Efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn cynhadledd ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion ddydd Mercher 12fed Medi.

Cyffredinol WCVA
A hoffai'ch grwp neu'ch mudiad chi ddatblygu prosiect amgylcheddol?

Os felly, gall Buddsoddi yn Natur Cymru eich cyfeirio at adnoddau, cymorth a chyllid!
Llogi ystafell yn WCVA

Yn chwilio am y lleoliad fforddiadwy perffaith i'ch cynhadledd, cyfarfod, neu sesiwn hyfforddi? Mae gan WCVA ystafelloedd amrywiol ar gael i'w llogi i elusennau ar gyllideb, gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf a gostyngiadau gwych i aelodau.
Busnesau cymdeithasol yn ffynnu wrth i gronfa fenthyciadau gyrraedd yr uchelfannau

Mae'r Gronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau Cymru a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi mentrau bach a chanolig wedi cofnodi'r

nifer mwyaf o fuddsoddiadau ym mentrau cymdeithasol Cymru ers dechrau'r cynllun.

Cyffredinol trydydd sector
Croesawu enwebiadau i gategori 'Gwasanaeth Gorau' Gwobrau GO Cymru

Gwobrau GO (Government Opportunities) Cymru 2018/19 yw'ch cyfle i rannu'ch llwyddiant drwy dynnu sylw pobl eraill yn y maes at eich mentrau caffael a dangos pam mai'ch tîm caffael chi yw un o'r rhai gorau, os nad y gorau, yng Nghymru.
Gwobrau Dewi Sant 2019 yn agor i enwebiadau

Pwy sy'n eich ysbrydoli? Pwy ddylai Cymru fod yn falch ohonynt? Mae'r Gwobrau Dewi Sant yn cydnabod llwyddiannau eithriadol pobl wahanol o Gymru a thu hwnt.

Cyllid
Cyllid Newydd i Hybu Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru

Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ffrwd gyllido newydd sylweddol i hybu adnoddau naturiol a llesiant yng Nghymru.
Arian i gefnogi gwaith y sector diwylliannol gyda phlant a phobl ifanc

Mae Cynllun Grantiau Agored y Ragdoll Foundation yn cefnogi gwaith y sector diwylliannol gyda phlant a phobl ifanc, yn enwedig prosiectau sy'n galluogi i bryderon plant gael eu clywed.

Hyfforddiant a digwyddiadau
Denu gwirfoddolwyr yr unfed ganrif ar hugain i greu newid

Cyfle i ddysgu sut i ddenu gwirfoddolwyr yr unfed ganrif ar hugain, dal gafael arnynt ac ennyn eu diddordeb yn effeithiol i greu newid go iawn
Cyfle Olaf i Archebu - Gweminar: Ymgynghoriad Brexit a'n Tir

A hoffech siapio dyfodol rheoli tir yng Nghymru? Cewch wybod sut i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ein gweminar 05.09.18
Archebwch Nawr - Gweminar: Ymgynghoriad Llwybr Carbon Isel i Gymru

A hoffech siapio datblygu cynaliadwy yng Nghymru? Cewch wybod sut i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ein gweminar 19.09.18

This week's updates from WCVA

03 September 2018

Hello and welcome to this week's newsletter.

Leaders play a significant role in supporting transformational change, empowering people and encouraging well-managed risk-taking. We aim to ensure that third sector leaders in Wales are strong and innovative so that they can carry the sector into a potentially challenging future. The Walter Dickie Leadership Bursary helps develop entrepreneurial skills by annually awarding £2,500 to a third sector leader. We also offer Third Sector Leadership for Future Generations training - spaces are limited so sign up today.

Are you on the hunt for the perfect affordable venue space for your conference, meeting, or training session? We've a range of rooms across our three offices in Aberystwyth, Cardiff and Rhyl available for hire to charities on a budget. They've got state-of-the-art facilities and significant discounts for members - visit the website for more details.

Thanks for reading, we'll see you again next week.

Volunteering

Understand and Engage with 21st century volunteers

We are delighted to be able to welcome Rob Jackson back to Wales to deliver training sessions for volunteer managers in October.

Volunteering Wales website survey

Tell us what you think about the volunteering wales website.

Free conference ticket

Interested in sports and volunteering? You might be interested in the conference at Manchester Metropolitan University on Wednesday 12th September .

WCVA general

Does your group or organisation want to develop an environmental project?

Invest in Nature Cymru can help point you to resources, support and funding!

Room hire at WCVA

Looking for the perfect affordable venue space for your conference, meeting, or training session? WCVA has a range of rooms available for hire to charities on a budget, with state of the art facilities and big discounts for members.

Social businesses thrive as loan fund hits record high

The Wales Micro-Business Loan Fund set up by the Welsh Government to support small and medium sized enterprises has recorded the highest amount of investment in Wales' social enterprises since the scheme began.

Third sector general

Nominations open for GO Awards Wales 'Best Service' category

The GO (Government Opportunities) Awards Wales 2018/19 is your opportunity to share your success story by showcasing your procurement initiatives to your peers and demonstrate why your procurement team is one of, if not, the best in Wales.

St David Awards 2019 open for nominations

Who has inspired you? Who can Wales be proud of? The St David Awards recognise and celebrate the exceptional achievements of people from all walks of life in Wales and abroad.

Funding

New Funding for Enabling Natural Resources and Well-Being in Wales

The Welsh Government is set to announce a significant new funding stream to enhance Wales' natural resources and well-being.

Funding to support the cultural sector's work with children and young people

The Ragdoll Foundation's Open Grants Scheme supports the cultural sector's work with children and young people, specifically projects where the concerns of childhood can be heard.

Training and events

Engaging with 21st century volunteers to make change happen

Attract and retain 21st century volunteers and engage effectively with your volunteers to affect real change

Last Chance to Book - Webinar: Brexit and Our Land Consultation

Do you want to shape the future of land management in Wales? Find out about responding to the public consultation from our webinar 05.09.18

Book Now - Webinar: A Low Carbon Pathway for Wales Consultation

Do you want to shape sustainable development in Wales? Find out about responding to the public consultation from our webinar 19.09.18